**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

8 Rhagfyr 2020

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Tachwedd ynghylch y trefniadau interim ar gyfer llywodraethu amgylcheddol ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu.

**Cynigion y Grŵp Gorchwyl ar gyfer mesurau interim a'r Ymateb i'r cynigion hyn**

Rydych wedi gofyn am gopi o adroddiad Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol ar fesurau interim a gyflwynwyd ym mis Hydref 2019. Lluniodd y Grŵp Gorchwyl bapur ar y trefniadau parhaol. Mae hwn wedi cael ei gyhoeddi, ynghyd â'm hymateb https://llyw.cymru/ymateb-ir-adroddiad-gan-grwp-gorchwyl-rhanddeiliaid-llywodraethu-amgylcheddol, yn unol â'r ymrwymiad a wneuthum pan fûm yng nghyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

**Yr ymateb i'r cynigion hyn**
Hefyd ystyriodd y Grŵp Gorchwyl opsiynau ar gyfer mesurau interim posibl yn benodol i ymateb i'r posibilrwydd o ymadael â'r UE heb gytundeb ar ddiwedd Hydref 2019. Lluniodd swyddogion ddogfen yn seiliedig ar y mewnbwn hwn a oedd yn argymell dull fesul cam ar gyfer mesurau interim. Roedd yr adroddiad hwn yn llywio'r cyngor gweinidogol a dderbyniwyd ym mis Hydref 2019. Fel y dywedais yn fy adroddiad penderfyniad ar y pryd, cytunais i ddull fesul cam o ddatblygu trefniadau llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru, ac i fecanwaith cwyno interim cychwynnol gael ei roi ar waith pe byddem wedi ymadael â'r UE heb gytundeb ar 31 Hydref. Ni luniodd y Grŵp Gorchwyl ei hun adroddiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cafodd y trefniadau interim a gafodd eu hystyried ar yr adeg honno eu rhoi o'r neilltu, gan na wnaethom adael yr UE heb gytundeb ar y pryd hwnnw, a symudodd y ffocws i weithio tuag at egluro a therfynu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru ar ôl inni ymadael â'r UE.

**Cwestiwn 3 a 4: Esboniad Manwl o'r System Gwyno interim a mesurau interim ychwanegol y tu hwnt i'r mecanwaith cwyno i fynd i'r afael â'r bwlch yn y trefniadau llywodraethu**

Rhoddir mesurau interim ar waith fesul cam o 1 Ionawr 2021.

I ddechrau bydd gwefan a mecanwaith ar gyfer codi pryderon ynghylch y ffordd mae cyfreithiau amgylcheddol yn gweithredu.

Penodir aseswr interim i ystyried y pryderon a chynnal adolygiadau systemig ehangach mewn perthynas â'r ffordd mae cyfreithiau amgylcheddol yn gweithredu. Pan fydd aseswr yn ystyried bod hynny'n briodol, ceisir rhagor o dystiolaeth a/neu gyngor arbenigol fel rhan o broses adrodd.

Mae'n bwysig nodi y bwriedir i'r trefniadau hyn fod am gyfnod dros dro yn unig, ac rwy'n bwriadu i'r mesurau interim helpu i ddatblygu a gosod y sylfeini ar gyfer ein hymateb parhaol. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliad i ddatblygu syniadau gyda'r nod o gyflwyno Papur Gwyn ar y trefniadau parhaol ar ôl etholiadau'r Senedd mis Mai nesaf.

Mae'n bosibl y cymerir camau eraill wedyn i gryfhau'r trefniadau interim, ochr yn ochr â datblygu corff cysgod cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei gosod a'r corff newydd gael ei sefydlu yn gyfreithiol.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs